# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD GWENER 14 HYDREF 2016 AM 10.00AM

**YN BRESENNOL:** Bu'r cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | A C S Colburn | A M Cook |
| J P Curtice | P Downing | P Lloyd |
| K E Marsh | H M Morris | C L Philpott |
| T H Rees | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| L Anthony | Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| G Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| R Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| L Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| G White | Cyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**
Y Cynghorydd: V M Evans

### 49 DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd C Anderson – Cofnod Rhif 54 – APH – Personol – Rwy'n adnabod 2 o'r bobl sy'n cynrychioli APH a gadewais cyn y drafodaeth.

### 50 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 9 Medi 2016 yn gofnod cywir.

### 51 CANLYNIADAU APELIADAU DIWEDDAR (ER GWYBODAETH)

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn manylu ar ganlyniadau'r apeliadau.

**PENDERFYNWYD NODI'R** adroddiad ac i longyfarchiadau'r pwyllgor gael eu trosglwyddo i'r swyddogion a fu'n gweithio ar amddiffyn yr apeliadau.

## 52 GWAHARDD Y CYHOEDD

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 53 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - AJT

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag AJT.

Esboniodd AJT amgylchiadau ei rybuddiadau ac atebodd gwestiynau'r aelodau mewn perthynas â'r digwyddiadau.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO** cais AJT am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

## 54 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - APH

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag APH.

Esboniodd APH amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau mewn perthynas â'r digwyddiadau.

Cyflwynwyd saith llythyr cefnogi ar ran APH. Darllenodd y Swyddog Cyfreithiol y llythyrau i'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO** cais APH am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am

**CADEIRYDD**